# Swyddog Bioamrywiaeth

## Pecyn Gwybodaeth





CYNGOR GWYNEDD

www.gwynedd.llyw.cymru/Swyddi

# Croeso



## Swyddog Bioamrywiaeth

Diolch am ddangos diddordeb mewn ymgeisio am y swydd yma.

Mae Gwynedd yn adnabyddus am ei harddwch naturiol. Mae Cyngor Gwynedd yn cydweithio yn agos gyda nifer o bartneriaid i warchod a dathlu'r amgylchedd naturiol yma.

Bydd y swydd yma yn chwarae rhan bwysig gan ymuno efo Tîm Bioamrywiaeth y Cyngor, sy'n cyflawni amrediad o brosiectau cyffrous yn y maes. Edrychwn ymlaen at benodi Swyddog Bioamrywiaeth brwdfrydig ac ymroddedig i ymuno â'r tîm.

Mae rhagor o fanylion am y swydd ar gael yn y ddogfen yma, ac mae mwy o wybodaeth am y buddion o weithio i'r Cyngor i'w weld ar ein gwefan **www.gwynedd.llyw.cymru/swyddi**

Yn y cyfamser, pe byddech yn dymuno cael sgwrs anffurfiol ar unrhyw agwedd o'r swydd mae croeso i chi gysylltu gyda Lea Connelly, Arweinydd Tîm Bioamrywiaeth ar e-bost: **leaelinconnelly@gwynedd.llyw.cymru**

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

# Hysbyseb Swydd

## Swyddog Bioamrywiaeth
## £30,559 - £32,654 yn ogystal â chyfraniad pensiwn Llywodraeth Leol.

Mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i benodi unigolyn brwdfrydig sydd yn awyddus i wneud gwahaniaeth cadarnhaol er budd amgylchedd naturiol a bywyd gwyllt yma yng Ngwynedd.

Bydd y rôl yma yn chwarae rhan allweddol yng ngwaith Tîm Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd. Fel rhan o'u gwaith, bydd y Swyddog yn cyfrannu at ddatblygu a gweithredu cynlluniau i warchod a hybu bywyd gwyllt, ynghyd a darparu cyngor arbenigol ar faterion yn ymwneud a'r amgylchedd naturiol.

Mae holl fanylion y swydd ar gael yn y pecyn yma.

**Dyddiad cau:** Hanner dydd ar ddydd Gwener, 25 Gorffennaf 2025



# Gweithio i'r Cyngor

Diolch am ddangos diddordeb mewn gwneud cais am y swydd yma gyda Chyngor Gwynedd.

Mae'r Cyngor yn cynnig amodau gweithio apelgar. Fel aelod o staff y Cyngor, byddai cyfle i fanteisio ar amrywiaeth o hyfforddiant a chyrsiau perthnasol fel rhan o'n hymrwymiad i'ch datblygiad proffesiynol.

Mae sicrhau cydbwysedd bywyd a gwaith yn bwysig iawn, ac mae Cyngor Gwynedd yn cynnig nifer o gyfleoedd gweithio'n hyblyg er mwyn helpu staff i daro cydbwysedd iach rhwng bywyd cartref a gwaith.

Byddech hefyd yn elwa ar nifer o fuddiannau pellach sydd ar gael o weithio i Gyngor Gwynedd.

Mae rhagor o fanylion am y buddion o weithio i Gyngor Gwynedd i'w gweld ar **[www.gwynedd.llyw.cymru/gweithioiwynedd](www.gwynedd.llyw.cymru/gweithioiwynedd)**



# Swydd Ddisgrifiad

**PWRPAS Y SWYDD**

- Cyfrannu at ddatblygu a gweithredu cynlluniau sy'n gwarchod a hyrwyddo bywyd gwyllt a'r amgylchedd naturiol.
- Cynorthwyo'r Gwasanaeth i ddarparu cyngor arbenigol ar faterion sy'n ymwneud a bioamrywiaeth.
- Sicrhau bod pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydan ni yn ei wneud.



**CYFRIFOLDEB AM ADNODDAU (e.e. staff, cyllid, offer)**

- **Offer** - Cyfrifoldeb am unrhyw offer gan gynnwys cyfrifiadur, gliniadur a ffôn a ddarperir ar gyfer dibenion y swydd.
- **Staff** - Gwirfoddolwyr yn achlysurol ac unigolion ar brofiad gwaith. Goruchwylio gwaith contractwyr.

**PRIF DDYLETSWYDDAU**

- Cyfrannu at y gwaith o lunio a pharatoi cynlluniau a strategaethau Adrannol a Chorfforaethol sy'n rhoi arweiniad a chyfeiriad ar gyfer gwarchod, gwella a hyrwyddo Bioamrywiaeth yng Ngwynedd.
- Cynorthwyo'r Gwasanaeth i hyrwyddo dealltwriaeth am faterion amgylcheddol a chadwraeth gan gymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau gan gynnwys rhoi sgyrsiau a chyflwyniadau i ysgolion, colegau a mudiadau eraill.
- Rhoi mewnbwn ar faterion amgylcheddol ac ecolegol i gynlluniau gweithredol a phrosiectau cyfalaf perthnasol.
- Cyfrannu at y gwaith o fonitro cyflwr ac iechyd cynefinoedd a dosbarthiad rhywogaethau.
- Ymateb i ymholiadau gan y cyhoedd, mudiadau allanol ac adrannau'r Cyngor ar faterion ecolegol.
- Cynorthwyo'r Uned i ddatblygu a gweithredu rhaglenni gwaith sy'n gwarchod a gwella safon yr amgylchedd ac yn cyfrannu tuag ymateb yr Adran a'r Cyngor i her newid hinsawdd.
- Cyfrannu tuag at y gwaith o baratoi a gweinyddu rhaglenni grant sy'n cefnogi gwaith yr Uned.
- Adnabod cyfleoedd a chydweithio gydag asiantaethau cyhoeddus, Awdurdodau Lleol cyfagos, mudiadau gwirfoddol a'r sector busnes ble mae cyfleoedd yn codi i weithredu er budd bioamrywiaeth.
- Darparu cyngor arbenigol ar faterion sy'n ymwneud a bioamrywiaeth mewn ymateb i geisiadau cynllunio, apeliadau cynllunio, ymgynghoriadau cynllunio a gorfodaeth.
- Cyfrifoldeb am hunan ddatblygiad.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau Iechyd a Diogelwch yn y gweithle yn unol â'r cyfrifoldebau a nodir yn Neddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974 a Pholisi Iechyd a Diogelwch y Cyngor.



**PRIF DDYLETSWYDDAU (Parhad)**

- Gweithredu o fewn polisïau'r Cyngor yng nghyswllt cyfle cyfartal a chydraddoldeb.
- Cyfrifoldeb am reoli gwybodaeth yn unol â safonau a chanllawiau rheoli gwybodaeth y Cyngor. Sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin mewn cydymffurfiaeth â deddfwriaeth Diogelu Data.
- Ymrwymiad i leihau allyriadau carbon y Cyngor yn unol â'r Cynllun Rheoli Carbon ac i annog eraill i weithredu'n gadarnhaol tuag at leihau ôl-troed carbon y Cyngor.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswydd arall cyfatebol a rhesymol sy'n cyd-fynd â lefel cyflog a lefel cyfrifoldeb y swydd.
- Cyfrifoldeb i adrodd ar bryder neu amheuaeth bod plentyn neu oedolyn bregus yn cael ei gam-drin.



# Manylion Person

**NODWEDDION PERSONOL**
**Hanfodol:**
Diddordeb a brwdfrydedd am yr amgylchedd naturiol a bywyd gwyllt.
Parodrwydd i dderbyn cyfrifoldebau a chyfrannu syniadau.
Gonestrwydd, hunan-hyder, pendant a hyblyg.
Gallu gweithio fel rhan o dîm.

**CYMWYSTERAU A HYFFORDDIANT PERTHNASOL**
**Hanfodol:**
Gradd neu gymhwyster cyfwerth mewn maes perthnasol i bwrpas y swydd, er enghraifft Ecoleg, Gwyddor yr Amgylchedd, Bioamrywiaeth.

**Dymunol:**
Ol-radd mewn disgyblaeth perthnasol.
Hyfforddiant adnabod cynefinoedd neu rywogaethau wedi eu gwarchod.



**PROFIAD PERTHNASOL**

**Hanfodol:**

Profiad o weithio yn y maes Bioamrywiaeth, cynlluniau amgylcheddol a chadwraeth natur.

Profiad o baratoi adroddiadau ysgrifenedig a chyflwyno gwybodaeth ar lafar.

Gallu gweithio fel rhan o dim neu fel unigolyn heb oruchwyliaeth uniongyrchol.

**Dymunol:**

Profiad o ddatblygu prosiectau a rhaglenni gwaith.

Profiad o ddefnyddio systemau mapio digidol.

Profiad o arolygu rhywogaethau neu gynefinoedd.

**SGILIAU A GWYBODAETH ARBENIGOL**

**Hanfodol:**

Gwybodaeth gadarn am fywyd gwyllt ac ecoleg.

Sgiliau trefnu da.

Y gallu i gasglu a dadansoddi gwybodaeth a'i gyflwyno mewn adroddiadau cryno.

Dealltwriaeth am becynnau meddalwedd cyffredin megis Windows ac Excel.

**Dymunol:**

Gwybodaeth a dealltwriaeth o’r gyfundrefn a phrosesau sy’n ymwneud â cheisiadau cynllunio.



# Anghenion Ieithyddol

**Gwrando a Siarad - Lefel Uwch**
Gallu dilyn sgwrs neu drafodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ar lefel broffesiynol a thrafod pynciau cyffredinol bob dydd yn y maes er mwyn cyflwyno gwybodaeth a mynegi barn. Gallu darparu cyflwyniad wedi'i baratoi o flaen llaw ac ymateb i unrhyw sylwadau a chwestiynau arno drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

**Darllen a Deall - Lefel Uwch**
Gallu deall Cymraeg a Saesneg ysgrifenedig safonol, ffurfiol ac anffurfiol. Medru casglu gwybodaeth o amrywiol ffynonellau megis llythyrau, adroddiadau, erthyglau, drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn cyflawni'r swydd.

**Ysgrifennu - Lefel Uwch**
Cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig gyda hyder ar ffurf llythyr, adroddiad mwy manwl a thechnegol ac ymateb i geisiadau ysgrifenedig gan gyfleu gwybodaeth, syniadau a barn drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. (Mae'n bosib cael cymorth i wirio'r iaith)

# Proses ymgeisio

I  ymgeisio am y swydd, ewch i **www.gwynedd.llyw.cymru/Swyddi**

Gofynnwn i chi adolygu'r Swydd Ddisgrifiad a Manylion Person, a chwblhau eich cais yn unol â'r gofynion.

Ceisiadau i'w cyflwyno erbyn hanner dydd ar ddydd Gwener, 25 Gorffennaf 2025, gyda chyfweliadau yn cael eu cynnal yn fuan wedi hynny.

Cysylltwch gyda Lea Connelly, Arweinydd Tîm Bioamrywiaeth ar e-bost: **leaelinconnelly@gwynedd.llyw.cymru** os am sgwrs i drafod y swydd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r broses, cysylltwch â **DesgAdnoddauDynol@gwynedd.llyw.cymru**



CYNGOR GWYNEDD

**www.gwynedd.llyw.cymru/Swyddi**